# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr - Tŷ**

**Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 10 Hydref 2017

Amser: 08.30 - 09.10

# Preifat

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AC (Cadeirydd)<br>Jane Hutt AC<br>Paul Davies AC<br>Rhun ap Iorwerth AC<br>Gareth Bennett AC |
| Staff y Pwyllgor: | Aled Elwyn Jones (Clerc) |
| Eraill yn bresennol | Ann Jones AC, Y Dirprwy Lywydd<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad<br>Christopher Warner, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Rhuanedd Richards, Cynghorwr Polisi i'r Llywydd<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru |

# 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

# 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunodd y Pwyllgor ar y cofnodion ar gyfer eu cyhoeddi.

# 3 Trefn busnes

## 3.1 Busnes yr wythnos hon

**Dydd Mawrth**

- Newidiodd y Llywodraeth y Datganiad ar yr Ymgynghoriad Cyhoeddus ar Gynnal Teithiau Bws Am Ddim i Bobl Hŷn, Pobl Anabl a Chyn-filwyr Wedi'u Hanafu i Ddatganiad ar Ymgynghoriadau ar Deithio Rhatach ar Fysiau.
- Ni fydd Cyfnod Pleidleisio.

**Dydd Mercher**

- Cytunodd y Rheolwyr Busnes y byddai'r Cyfnod Pleidleisio yn cael ei gynnal cyn y Ddadl Fer.

## 3.2 Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Pwyllgor Busnes amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

## 3.3 Amserlen Busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn busnes y Cynulliad a chytunodd i gynnwys yr eitemau o fusnes a ganlyn ar yr amserlen:

**Dydd Mercher 8 Tachwedd 2017 -**

- Datganiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus: Ymchwiliad i Blant sydd wedi bod mewn Gofal (30 munud)
- Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig: Y Llanw'n Troi? Adroddiad yr ymchwiliad i ddull Llywodraeth Cymru o Reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig (60 munud)

## 3.4 Dadl Aelod Unigol: Dewis Cynnig ar gyfer Dadl

- Dewisodd y Pwyllgor Busnes gynnig ar gyfer dadl ar 18 Hydref:

NNDM6528

Julie Morgan

Hannah Blythyn

Angela Burns

Dai Lloyd

Jenny Rathbone

Joyce Watson

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod bod anffurfio organau cenhedlu benywod yn cael ei ymarfer yn eang ledled y byd a bod tua 2,000 o fenywod a merched yng Nghymru yn byw gyda chanlyniadau anffurfio organau cenhedlu benywod.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) defnyddio pob cyfle i gynyddu ymwybyddiaeth o'r arfer hwn;

b) annog ysgolion i drafod hyn fel rhan o'r cwricwlwm Addysg Bersonol a Chymdeithasol a hyfforddi staff;

c) codi ymwybyddiaeth o'r arfer hwn ymysg meddygon teulu a phob ymarferydd meddygol; a

d) gwneud popeth yn ei gallu i sicrhau bod y cymunedau yr effeithir arnynt fwyaf yn derbyn cymorth a chefnogaeth i fynd i'r afael â'r broblem.

- Cytunodd Rheolwyr Busnes i drefnu'r Ddadl Aelod Unigol nesaf ar 8 Tachwedd, a dewisodd y cynnig canlynol:

NNDM6527

Jenny Rathbone

Suzy Davies

Dafydd Elis-Thomas

Dai Lloyd

David Melding

Eluned Morgan

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi bod cyflymder y chwyldro mewn technoleg trafnidiaeth yn herio rhagdybiaethau cynllunio presennol ac yn golygu bod angen ail-feddwl dylunio a pholisi cyhoeddus yn sylweddol.

2. Yn credu y bydd angen i weithgynhyrchwyr trafnidiaeth a'u cadwyni cyflenwi addasu neu farw wrth i'r motor tanio gael ei ddiddymu'n raddol dros yr 20 mlynedd nesaf o ganlyniad i:

a) cerbydau heb yrwyr, a fydd yn amharu ar dybiaethau ynghylch y berchnogaeth breifat o geir, cynllunio trefol, rheoli tagfeydd ar y ffyrdd a rôl bysiau i gysylltu cymunedau; a

b) cerbydau trydan, sy'n golygu bod angen i drydan gael ei gynhyrchu a'i gyflenwi mewn ffordd fwy gwasgaredig gan gynnwys pwyntiau trydanu ledled Cymru;

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i amlinellu'r camau y mae'n eu cymryd i alinio polisïau â chyflymder y newid a sicrhau bod pob dinesydd yn cael budd o hyn, yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015

# 4 Deddfwriaeth

## 4.1 Llythyr gan y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon: Amserlen ar gyfer ystyried Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris Alcohol) (Cymru)

Cadarnhaodd Rheolwyr Busnes eu penderfyniad mewn egwyddor o 3 Hydref i gyfeirio Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris Alcohol) (Cymru) i'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ar gyfer ystyriaeth yng Nghyfnod 1, a chytunodd ar 16 Chwefror 2018 fel y dyddiad cau i'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad Cyfnod 1 ac ar 4 Mai 2018 fel y dyddiad cau i'r Pwyllgor gwblhau ei drafodion Cyfnod 2.

### 4.2 Llythyr gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Arweiniad a Hawliadau Ariannol

Nododd y Pwyllgor Busnes y llythyr a chytunodd y byddai'n well i bwyllgorau gael 6 wythnos bwyllgora i adrodd ar Gynigion Cydsyniad Deddfwriaethol yn y dyfodol. Dywedodd Arweinydd y Tŷ y byddai'r Llywodraeth yn ceisio darparu ar gyfer hyn, o fewn cyfyngiadau amserlenni Senedd y DU, wrth gynnig terfynau amser i'r Pwyllgor Busnes gytuno arnynt.

## 5 Rheolau Sefydlog

### 5.1 Cynigion i ddiwygio Rheolau Sefydlog 26, 26A a 26B

Cytunodd y Rheolwyr Busnes ar yr adroddiad yn nodi'r newidiadau arfaethedig i'r Rheolau Sefydlog mewn perthynas ag uwch-fwyafrifau. Cytunodd y Pwyllgor y dylid gosod yr adroddiad y diwrnod canlynol, ochr yn ochr â chynnig i ddiwygio'r Rheolau Sefydlog, i'w ystyried yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mercher nesaf.

## 6 Y Cyfarfod Llawn

### 6.1 Adolygiad o'r Diwygiadau i'r Cyfarfod Llawn

Cytunodd Rheolwyr Busnes i ddychwelyd at y papur yn y cyfarfod cyntaf ar ôl yr hanner tymor.

## 7 Pwyllgorau

### 7.1 Effaith ymadawiad Aelod â grŵp gwleidyddol

Cytunodd Rheolwyr Busnes y dylai'r dyraniad presennol o amser y gwrthbleidiau yn y Cyfarfod Llawn aros yn ddigyfnewid.

O ran aelodaeth Pwyllgorau a chadeiryddiaethau, trafododd y Rheolwyr Busnes y materion a godwyd yn y papur ond ni allent gytuno yn unfrydol ar unrhyw benderfyniadau. Cynigiodd y Llywydd fod y Pwyllgor Busnes yn gosod adroddiad yn amlinellu eu trafodaethau a'u casgliadau; caiff drafft ohono ei ddosbarthu cyn y cyfarfod yr wythnos nesaf.